



655 Rho in gofio angau Iesu

ALLTUD EIFION.

Rho in gofio angau Iesu
 gyda diolchiadau llawn,
 a chael derbyn o rinweddau
 maith ei wir, achubol llawn;
 bwyta'i gnawd drwy ffydd ddiffuant,
 yfed gwaed ei galon friw,
 byw a marw yn ei heddwch:
 O'r fath wir ddedwyddwch yw.

Addfwyn Iesu, dangos yma
 ar dy fwrdd d'ogoniant mawr,
 megis gynt wrth dorri bara
 ymddatguddia inni nawr;
 bydd yn wledd ysbrydol inni
 er cyfnerthu'n henaid gwan,
 gad in brofi o'r grawnsypiau
 nes cael gwledd y nef i'n rhan.

512 Cofio 'rwyf yr awr ryfeddol

Cofio 'rwyf yr awr ryfeddol,
 awr wirfoddol oedd i fod,
 awr a nodwyd cyn bod Eden,
 awr a'i diben wedi dod,
 awr wýnebu ar un aberth,
 awr fy Nuw i wirio'i nerth,
 hen awr annwyl prynu'r enaid,
 awr y gwaed, pwy wýr ei gwerth?

ALLTUD GLYN MAELOR, 1800-81

513 Mae rhyw fyrdd o ryfeddodau

Mae rhyw fyrdd o ryfeddodau,
 Iesu, yn dy farwol glwy';
 trwy dy loes, dy gur a'th angau
 caed trysorau fwy na mwy:
 ni all cerwb byth na seraff
 lawn fynegi gwerth yr Iawn
 a roed drosom gan Gyfryngwr
 ar Galfaria un prynhawn.

Pwy all fesur maint ei gariad,
 a rhinweddau maith ei ras?
 Nid angylion, er eu doniau,
 na holl seintiau daear las;
 môr di-drai, heb waelod iddo,
 sydd yn chwyddo byth i'r lan;
 nofia miloedd ynddo'n hyfryd
 draw ir bywyd yn y man.

DANIEL JONES, 1788?-1848

668 O Dduw ein galwad, clywsom dy addewid

O Dduw ein galwad, clywsom dy addewid,
yn ein calonnau plennaist wraidd dy bwrpas;
ti a'n harweiniaist drwy yr oriau duaf,
O Dduw ein galwad.

Dduw ein hymgynnull, gydol y canrifoedd
maethaist ni wrth dy fwrdd â'th gariad graslon,
dŵr, gwin a bara, rhoddion drud dy aberth,
Dduw ein hymgynnull.

O Dduw ein moliant, mawl a gân ac offrwm,
pob un â'i iaith ac idiom ei ddiwylliant,
yn ein bywydau cynnau fflam sancteiddrwydd,
O Dduw ein moliant.

Dduw ein gwasgaru, yn ein byd drallod,
danfon dy Ysbryd, lleda ein gorwelion;
yn un cymundeb ffurfia ni o'r newydd,
Dduw ein gwasgaru.

Meurig Llwyd

125 MAE'N DUW NI MOR FAWR 151 (words) ANAD.

Mae'n Duw ni mor fawr, mor gryf ac mor ner - thol, 'does dim y tu
Mae'n Duw ni mor fawr, mor gryf ac mor ner - thol, 'does dim y tu

hwnt i - ddo fe! Fe wnaethy my - ny - ddoedd, a chre - odd y
hwnt i - ddo fe!

mo - roedd, Duw ro - ddodd y sêr yn eu lle. Mae'n Duw ni mor

fawr, mor gryf ac mor nerthol, 'does dim y tu hwnt i - ddo fe!

The musical score for 'Torrwn Fara' is presented in three systems. Each system consists of a treble clef staff and a bass clef staff, both in 4/4 time and with a key signature of three sharps (F#, C#, G#). The music is written in a style characteristic of Afro-American folk music, featuring a mix of eighth and sixteenth notes, often beamed together, and some chords. The first system has a dotted line under the first measure of the bass line. The second system has a dotted line under the first measure of the bass line and a sharp sign under the second measure of the bass line. The third system has a dotted line under the first measure of the bass line.

CANTORION

Hen Nodiant

671 Torrwn fara ar ein gliniau yn gytûn

Torrwn fara ar ein gliniau yn gytûn,
 torrwn fara ar ein gliniau yn gytûn,
 a phan rof fy ngliniau i lawr gan wŷnebu haul y wawr,
 O Dduw, bydd drugarog wrthyf fi.

Yfwn win ar ein gliniau yn gytûn,
 yfwn win ar ein gliniau yn gytûn,
 a phan rof fy ngliniau i lawr gan wŷnebu haul y wawr,
 O Dduw, bydd drugarog wrthyf fi.

Molwn Dduw ar ein gliniau yn gytûn,
 molwn Dduw ar ein gliniau yn gytûn,
 a phan rof fy ngliniau i lawr gan wŷnebu haul y wawr,
 O Dduw, bydd drugarog wrthyf fi.